Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

**Atodiad 2**

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Sir Powys (ac eithrio'r Gwasanaeth Bwyd Anifeiliaid*)

Dyddiad archwilio: 25 – 29 Tachwedd 2013
Dyddiad yr ymweliad dilynol: 10 – 11 Ionawr 2017

Dyddiad yr ymweliad archwilio: 6 – 7 Rhagfyr 2023
(*) Nid yw'r camau gweithredu a godwyd yn yr archwiliad mewn perthynas â bwyd anifeiliaid wedi'u cynnwys. Cyflwynwyd model gweithredu bwyd anifeiliaid rhanbarthol newydd yng Nghymru ym mis Ebrill 2015.

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni (yn flaenorol) | Cynnydd pellach hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.18 Dylai'r awdurdod:<br>(i) Sicrhau bod Cynlluniau'r Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn y dyfodol yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid darparu nifer yr ymyriadau arfaethedig sydd i'w cynnal, gan gynnwys ymyriadau amgen, amcangyfrif o arolygiadau busnesau newydd ac ailymweliadau y bydd eu hangen i fodloni gofynion y Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Dylid darparu gwybodaeth bellach a manylach am gostau darparu gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid. Dylid cynnwys dadansoddiad cadarn o'r adnoddau sy'n ofynnol o gymharu â'r adnoddau sydd ar gael, ynghyd â chynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg. [Y Safon – 3.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod y Cynllun Darparu Gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ymhellach yn unol â'r canllawiau cynllunio gwasanaeth i gynnwys dadansoddiad o'r adnoddau sydd ar gael yn erbyn yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth yn llawn a, lle bo'n berthnasol, gynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg a nodwyd.<br><br>Yn ogystal, mae angen adolygu'r targedau a osodwyd ar gyfer ymyriadau busnesau newydd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.<br><br>Mewn perthynas ag ymyriadau o ran hylendid bwyd, dylid darparu mwy o wybodaeth yn y cynllun am gyfanswm nifer y safleoedd gradd E sydd i fod i gael ymyriad yn y flwyddyn gyfredol, cyfanswm yr ymyriadau sy'n hwyr, ynghyd â chynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg.<br><br>Mewn perthynas ag ymyriadau o ran safonau bwyd, dylid cynnwys mwy o wybodaeth am gyfanswm nifer y safleoedd y mae eu hymyriadau'n hwyr. Nododd yr archwilwyr mai dim ond data o 2014/15 sy'n cael ei | Mae'r cynllun yn cynnwys asesiad o'r diffyg adnoddau ar gyfer y ddau wasanaeth.<br><br>Mae targedau busnes newydd a chywir wedi'u cynnwys yn y cynllun.<br><br>Mae cyfanswm nifer yr ymyriadau hylendid bwyd hwyr ac ymyriadau Categori E sydd i fod i ddigwydd wedi'i ddarparu. | Sicrhau bod cynllun i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg adnoddau wedi'i gynnwys yn y cynllun gwasanaeth, ynghyd â chynllun i fynd i'r afael â'r diffyg ymyriadau er mwyn ail-alinio'n llawn â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.<br><br>Sicrhau bod y cynllun yn nodi cyfanswm cywir yr arolygiadau safonau bwyd hwyr. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni (yn flaenorol) | Cynnydd pellach hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | adrodd ar hyn o bryd mewn perthynas ag ymyriadau hwyr. | | |
| (ii) Mewn perthynas â safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, cynnal adolygiad dogfenedig o'i berfformiad yn seiliedig ar y Cynllun Darparu Gwasanaeth o leiaf unwaith y flwyddyn, a ddylai fod yn amodol ar gymeradwyaeth gan yr aelod fforwm perthnasol neu'r uwch-swyddog dirprwyedig. Os bydd unrhyw amrywiadau wedi'u nodi, dylid mynd i'r afael â'r rhain yn ei Gynllun Gwasanaeth dilynol. [Y Safon – 3.2 a 3.3] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 4.6 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. [Y Safon – 4.1] | Glas | Cwblhawyd | | |
| (ii) Ymestyn ei system rheoli dogfennau i gynnwys gweithgareddau gorfodi safonau | Glas | Cwblhawyd | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni (yn flaenorol) | Cynnydd pellach hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 4.2] | | | | |
| 5.15 Dylai'r awdurdod:<br>(i) Adolygu, diwygio a gweithredu ei weithdrefn ar gyfer awdurdodi swyddogion safonau bwyd a bwyd anifeiliaid er mwyn sicrhau bod y meini prawf ar gyfer pennu cymwyseddau swyddogion, a bod ei ddull o ymdrin â swyddogion newydd a swyddogion sy'n dychwelyd, yn cael eu cynnwys. [Y Safon – 5.1] | Glas | Cwblhawyd | | |
| Camau gweithredu mewn perthynas â swyddogion awdurdodedig yn sgil archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Swyddogion yn derbyn hyfforddiant cysondeb | Cwblhawyd |
| 6.11 Dylai'r awdurdod:<br>(i) Sicrhau y cedwir at y terfynau goddefiant derbyniol a nodir yn y Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd wrth gynnal gwiriadau graddnodi thermomedrau a bod unrhyw offer sy'n mynd dros y goddefiant yn cael eu tynnu | Glas | Cwblhawyd | | |

| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni (yn flaenorol)** | **Cynnydd pellach hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| oddi ar y gwasanaeth. [Y Safon – 6.2] | | | | |
| Camau gweithredu mewn perthynas â gweithdrefnau cronfa ddata yn sgil archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Glas | | Mae gweithdrefn y CSHB yn cynnwys adran ar uwchlwytho gwybodaeth sensitif. | Cwblhawyd |
| (ii) Sicrhau bod systemau ar waith i atal colli data sgorio risg safonau bwyd o'i gronfa ddata. [Y Safon – 6.4] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 7.19 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Oren | Sicrhau bod ymyriadau hylendid bwyd / gwaith Strategaeth Orfodi Amgen (AES) yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.<br><br>Dylid llunio cynllun i ymdrin â'r nifer sylweddol o safleoedd gradd E y mae eu hymyriadau'n hwyr (yn unol â'r gronfa ddata) a'i roi ar waith fel blaenoriaeth. Lle bo'n berthnasol, sicrhau bod AES yn cael ei chynnal ac yr adroddir arni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. | Mae'r cynllun i ymdrin â sefydliadau Categori E yn annigonol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad. | Sicrhau bod ymyriadau hylendid bwyd / gwaith AES yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni (yn flaenorol) | Cynnydd pellach hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Camau gweithredu mewn perthynas â gweithdrefnau ymyrryd yn sgil archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Glas | | Gweithdrefnau wedi'u diwygio i gynnwys dull o flaenoriaethu safleoedd heb sgôr, rhannu sgoriau risg gyda busnesau aml-safle, hysbysu ynghylch sgoriau yn yr awdurdod, cyngor ar arddangos sgoriau'n amlwg, gwiriadau arddangos sgôr, gwiriadau arddangos mewn safleoedd amlfeddiannaeth, gwiriadau nad yw hen sgoriau'n | Cwblhawyd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni (yn flaenorol) | Cynnydd pellach hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | cael eu harddangos mwyach, ac adolygu sgoriau o ymweliadau heblaw arolygiadau. | |
| (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 7.2] | Glas | Sicrhau bod swyddogion yn cofnodi manylion perthnasol mewn perthynas ag asesu cydymffurfiaeth ar gyfer asesiad HACCP, asesiad canllawiau E. coli O157 a chofnodi gwiriadau nodau iechyd deunydd crai gan swyddogion. | Mae tystiolaeth o asesiadau trylwyr o HACCP, canllawiau E.coli O157 a nodau iechyd deunydd crai ar gael. | Cwblhawyd |
| (iii) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn rhwystro gwybodaeth berthnasol rhag mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] | Glas | Sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag asesiadau swyddogion o gydymffurfiaeth yn cael ei chofnodi a bod modd cael gafael ar yr wybodaeth hon yn unol â'r argymhelliad uchod. | Cofnodion asesu ar gael. | Cwblhawyd |
| 7.35 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Sicrhau bod ymyriadau safonau bwyd yn cael eu cynllunio a'u cynnal ar amlder nad yw'n llai na'r hwnnw a bennir o dan y | Oren | Sicrhau y caiff ymyriad safonau bwyd ei gynnal ym mhob sefydliad bwyd ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. | Cynllun wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael â rhan o'r ôl-groniad o ymyriadau hwyr. Mae'r cynllun | Sicrhau y caiff ymyriad safonau bwyd ei gynnal ym mhob sefydliad |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni (yn flaenorol) | Cynnydd pellach hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| cynllun sgorio ymyrraeth a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | | Datblygu cynllun i fynd i'r afael â'r nifer sylweddol o sefydliadau sy'n hwyr yn cael ymyriad, gan gynnwys safleoedd heb sgôr. | hwn yn annigonol i fynd i'r afael yn llawn â'r ôl-groniad ac nid yw'n cynnwys yr holl safleoedd sydd heb eu sgorio eto. | bwyd ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. |
| (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau o sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Yn benodol, sicrhau bod y Strategaeth Orfodi Amgen a'r cynllun sgorio risg a ddefnyddir yn gyson â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.2] | Glas | Cwblhawyd | | |
| (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau a systemau yn erbyn y safonau sydd wedi'u pennu yn ôl y gyfraith. [Y Safon – 7.3] | Glas | Cwblhawyd | | |
| (iv) Sefydlu, cynnal a rhoi gweithdrefn ddogfenedig ar waith, gan fanylu ar ei dull o | Glas | Sicrhau y caiff gweithdrefn ddogfenedig ei sefydlu, ei chynnal a'i rhoi ar waith, yn unol | Gweithdrefn wedi'i datblygu sy'n bodloni'r | Cwblhawyd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni (yn flaenorol) | Cynnydd pellach hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| ymdrin â'r Strategaeth Orfodi Amgen (AES) mewn perthynas â safonau bwyd. [Y Safon – 7.4] | | â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, pe bai AES yn cael ei chyflwyno. | gofynion. Arolygiadau wrthi'n cael eu cynnal. | |
| (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu fod data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad yn cael eu cofnodi'n amserol er mwyn rhwystro gwybodaeth berthnasol rhag mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 8.9 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Ymchwilio i gŵynion ynghylch hylendid bwyd yn unol â'i weithdrefnau cwynion dogfenedig. [Y Safon – 8.2] | Glas | Sicrhau yr ymchwilir i bob cwyn o ran hylendid bwyd yn unol â'r weithdrefn berthnasol. Os bydd unrhyw achos o wyro oddi wrth y weithdrefn, dylid ymchwilio i hyn neu gofnodi'r ffaith, yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol. | Ymchwiliwyd i gŵynion, yn unol â'r weithdrefn. | Cwblhawyd |
| 12.15 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Cymryd camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi lle nad ystyrir bod canlyniadau samplu safonau | Glas | Cwblhawyd | | |

| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni (yn flaenorol)** | **Cynnydd pellach hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| bwyd a bwyd anifeiliaid yn foddhaol. [Y Safon – 12.7] | | | | |
| 15.19 Dylai'r awdurdod:<br>(i) Adolygu, diwygio a gweithredu ei Bolisi Gorfodi, yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol eraill. [Y Safon – 15.1] | Glas | Sicrhau bod y Polisi Gorfodi neu weithdrefnau ar wahân ar gael i roi gwybodaeth i swyddogion mewn perthynas â'r meini prawf sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol fathau o opsiynau gorfodi safonau bwyd. | Meini prawf ar gyfer pob opsiwn gorfodi wedi'u darparu, naill ai mewn Polisi neu weithdrefn. | Cwblhawyd |
| (ii) Sicrhau bod gwaith gorfodi cyfraith bwyd yn cael ei gynnal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safonau – 15.2 ac 15.3] | Gwyrdd | Sicrhau bod pob agwedd ar Orfodi Cyfraith Bwyd yn cael ei chynnal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Yn benodol, sicrhau bod prawf o gyflwyno hysbysiadau ar gael ar gyfer Hysbysiadau Gwella Hylendid, bod manylion llysoedd lleol wedi'u cofnodi ar Hysbysiadau Camau Unioni, a bod cytundebau cau yn wirfoddol a ymgymerir gan sefydliadau bwyd yn destun gwiriadau cydymffurfio. | Mae cytundebau cau yn wirfoddol yn destun gwiriadau cydymffurfio. Mae system ar waith er mwyn rhoi prawf o gyflwyno hysbysiadau, ond nid yw'n cael ei chymhwyso'n gyson at Hysbysiadau Gwella Hylendid. | Sicrhau bod prawf o gyflwyno hysbysiadau ar gael yn gyson ar gyfer Hysbysiadau Gwella Hylendid a bod manylion llysoedd lleol wedi'u cofnodi ar Hysbysiadau Camau Unioni. |
| (iii) Sicrhau bod yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi'n cael eu gwneud gan ystyried polisi gorfodi'r | Glas | Cwblhawyd | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni (yn flaenorol) | Cynnydd pellach hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| awdurdod a bod y rhesymau dros wyro o'r meini prawf a amlinellir yn y polisi'n cael eu cofnodi. [Y Safon – 15.4] | | | | |
| Camau gweithredu mewn perthynas â llythyrau adroddiadau a mesurau diogelu yn sgil archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Glas | | Mae llythyrau adroddiadau'n cynnwys yr holl wybodaeth am ddilysrwydd ac apeliadau. | Cwblhawyd |
| 16.11 Dylai'r awdurdod:<br>(i) Cynnal cofnodion ac adroddiadau digonol ar ymyriadau safonau bwyd ar gyfer pob sefydliad bwyd perthnasol, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 16.1] | Glas | Sicrhau bod adroddiadau safonau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol fel y nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, gan gynnwys: dogfennau a archwiliwyd; y gwahaniaeth rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion; a'r ddeddfwriaeth sy'n sail ar gyfer cynnal ymyriadau. | Mae adroddiadau'n cynnwys dogfennau a archwiliwyd, y gwahaniaeth rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion, a'r ddeddfwriaeth sy'n sail ar gyfer cynnal ymyriadau. | Cwblhawyd |
| 19.8 Dylai'r awdurdod:<br>(i) Sefydlu, cynnal a rhoi gweithdrefnau monitro mewnol dogfenedig ar waith ar gyfer cyflenwi gwasanaethau safonau | Glas | Cwblhawyd | | |

| Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni (yn flaenorol) | Cynnydd pellach hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| bwyd a bwyd anifeiliaid, yn unol ag Erthygl 8 o Reoliad (CE) Rhif 882/2004 (Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd), y Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 19.2] | | | | |
| (ii) Gwirio ei fod yn cydymffurfio â’r Safon, y ddeddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol, canllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun mewn perthynas â chynnal gwasanaethau safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 19.2] | Glas | Cwblhawyd | | |
| (iii) Sicrhau bod cofnodion monitro mewnol mewn perthynas â safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu gwneud a’u cadw am o leiaf 2 flynedd. [Y Safon – 19.3] | Glas | Cwblhawyd | | |
| Camau gweithredu mewn perthynas â monitro mewnol yn sgil archwilio’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Glas | | Mae’r weithdrefn yn cynnwys yr unigolion sy’n gyfrifol am | Cwblhawyd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni (yn flaenorol) | Cynnydd pellach hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | fonitro, cyfeiriad at atodlen flynyddol o wiriadau, a gwiriadau bod mesurau diogelu'r CSHB wedi'u cyhoeddi.<br><br>Tystiolaeth o fonitro mewnol ar gael. | |

<u>Crynodeb:</u>

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **29** |
| **Cwblhawyd** | **25** |
| **Cynnydd da** | **2** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **2** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | **0** |
| **Heb eu profi** | **0** |
| **Cyfanswm sy'n weddill** | **4** |